



Helpa Drysor Siôn Corn

Allwch chi helpu cael hyd i 'Sionc' Corn?



Mae Siôn Corn wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Ras Siôn Corn eleni ac mae wedi bod yn ymarfer trwy wibio o gwmpas y siopau, busnesau a chaffis yn yr Wyddgrug i weld yr holl bethau rhyfeddol sydd i'w cael yn y dref. Ymhob man y bu ynddo mae wedi gadael model syfrdanol ohono'i hun i chi gael hyd iddo. Mae rhif ar bob un i chi chwilio amdanynt ac ysgrifennu ble gwelsoch chi bob Siôn Corn.

Allwch chi ddilyn llwybr Siôn Corn a chael hyd i bob un o'r 10 Siôn Corn a adawodd ar eich cyfer yn eu ffenestri? Yn gyfnewid, gallwch ennill un ohonynt - dyna ddeg gwobr wych ac..... os byddwch yn lwcus iawn, iawn, gallech hyd yn aed ennill taleb siopa arbennig yr Wyddgrug a bwndel anrhegion, gwerth dros £100.

Bydd Siôn Corn yn cuddio yn ffenestri siopau'r Wyddgrug o ddydd Mercher 28ain Tachwedd tan ddydd Sul 16eg Rhagfyr, a rhaid i chi dychwelwch eich ffurflenni wedi'u llenwi i Neuadd y Dref erbyn 10am ar ddydd Llun 17eg Rhagfyr. Byddaf yn tynnu'r enillwyr lwcus cyn gynted ag y gallaf wedyn.

Mae'r Helpa Drysor yn agored i bob oed, ond dim ond un cynnig yr un sydd i fod.

Peidiwch ag anghofio bod Ras Siôn Corn yr Wyddgrug yn digwydd ar ddydd Sul 9fed Rhagfyr, gan ddechrau gyda Pharatoi Mawr Siôn Corn am 10.30am ar Sgwâr Daniel Owen. Felly dewch i ymuno â thros 400 Siôn Corn yn 'gwibio' ar hyd strydoedd yr Wyddgrug o 11am, a rhoi hwrê i bob un ohonynt.

Bydd Siôn Corn a'i gynorthwywyr allan o gwmpas hefyd yn ei gar llusg yn ymweld â phlant yr Wyddgrug drwy gydol mis Rhagfyr. Felly cadwch lygad barcud yn eich stryd! Gwelwch wefan neu dudalennau Weplyfr Cyngor y Dref am ddyddiadau ac amseroedd.

Pob hwyl ar gael hyd i Siôn Corn, Llawer o gariad, *Mrs Corn xxx*

Enw: Oed os ydych dan 17:.....

Rhif ffôn:.....

Siôn Corn a Welwyd	Yn y siop hon . . .	Yn y stryd hon . . .
1		
2		
3		
4		
5		
6		
7		
8		
9		
10		